

Cynllun Pensiwn Enillion Gyrfa Cyfartalog Aelodau o'r Senedd

Canllaw ar gyfer Aelodau a ymunodd
â'r Cynllun ar ôl 6 Mai 2016



Cynnwys

Cyflwyniad.....2

Aelodaeth o'r Cynllun - Ymuno â'r Cynllun4

Sut y cyfrifir eich pensiwn..... 5

Cyfraniadau7

Gadael y Cynllun..... 8

Buddion Ymddeol10

Marw yn y swydd..... 16

Optio allan.....21

Gwybodaeth ychwanegol.....22

Cyflwyniad

Canllaw ar gyfer Aelodau a ymunodd â'r Senedd ar 6 Mai 2016 neu wedi hynny yw hwn. Mae gan Aelodau a ymunodd â'r Senedd cyn y dyddiad hwn drefniadau pensiwn gwahanol, ac nid yw'r canllaw hwn yn gymwys iddynt.

Mae'r Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd ("y Cynllun") yn fath o gynllun pensiwn buddion diffiniedig a elwir yn Gynllun Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi'u Hailbrizio (CARE).

Mae'r Cynllun yn cael ei reoli gan Fwrdd Pensiynau a elwir yn Ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys dau gynrychiolydd a enwebir gan Aelodau presennol a blaenorol o'r Senedd, dau gynrychiolydd a benodir gan Gomisiwn y Senedd ac Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol i fod yn Gadeirydd. Mae'r Bwrdd Pensiynau yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, a bydd aelodau'n cael cylchlythyr yn achlysurol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith y Bwrdd.

Mae buddion sy'n daladwy i aelodau o dan reolau'r Cynllun yn cael eu talu o'r Gronfa Bensiwn. Mae'r

Gronfa Bensiwn yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau a Chomi siwn y Senedd a'r adenillon sy'n deillio o fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae'r Gronfa Bensiwn, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, yn cael ei chynnal yn gwbl ar wahân i asedau'r Senedd, ac mae'r Ymddiriedolwyr yn gofalu am y Gronfa ar ran y buddiolwyr.

Bob tair blynedd, bydd Actwari'r Cynllun yn asesu sefyllfa ariannol y Gronfa. Mae'r drefn hon yn galluogi'r Ymddiriedolwyr i asesu iechyd ariannol y Cynllun.

Y print mân

Dyma eich canllaw i'r ystod werthfawr o fuddion y mae gennych hawl iddynt fel aelod o'r Cynllun. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd ar y Cynllun.

Mae manylion llawn am y Cynllun wedi'u nodi yn Nhrefniant y Rheolau ar gyfer y Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd.

Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y llyfryn hwn a'r Rheolau, y Rheolau a fydd yn trechu.

Aelodaeth o'r Cynllun - Ymuno â'r Cynllun

Nid oes rhaid i chi wneud dim i ymuno â'r Cynllun. Cyn belled nad ydych wedi cyrraedd 75 oed, byddwch yn ymuno â'r Cynllun o'r dyddiad y byddwch yn dod yn Aelod o'r Senedd.

Nid yw aelodaeth o'r Cynllun yn orfodol a gallwch optio allan ohono os dymunwch wneud hynny. Bydd rhaid i chi roi gwybod i'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig os dymunwch optio allan. Mae rhagor o fanylion am optio allan ar dudalen 21.

Os penderfynwch optio allan o'r Cynllun, dylech feddwl yn ofalus am wneud darpariaeth amgen ar gyfer eich pensiwn, a lle bo hynny'n briodol, dylech ofyn am gyngor ariannol ynghylch eich amgylchiadau unigol.

Ni chaniateir trosglwyddo arian i'r cynllun o gynlluniau pensiwn eraill, ac nid oes modd prynu pensiwn ychwanegol neu flynyddoedd ychwanegol.

Sut y cyfrifir eich pensiwn

Bob blwyddyn byddwch yn cronni pensiwn sy'n $\frac{1}{50}$ o'ch cyflog ar gyfer y flwyddyn honno. Golyga hynny fod eich pensiwn yn seiliedig ar eich cyflog tra byddwch yn aelod o'r Cynllun.

Felly, os ydych yn ennill £79.817 y flwyddyn, y pensiwn yr ydych yn ei gronni bob blwyddyn yw £1,596 y flwyddyn.

Os ydych yn Ddeiliad Swydd, byddwch yn ennill pensiwn CARE ychwanegol ar gyfer Deiliaid Swyddi, sef $\frac{1}{50}$ o'r cyflog rydych yn ei ennill bob blwyddyn fel deiliad swydd.

Bydd y pensiwn CARE yr ydych yn ei gronni bob blwyddyn yn cynyddu ar gyfradd a benderfynir bob blwyddyn drwy orchymyn gan y Trysorlys.

Ar hyn o bryd, mae hyn yn cyfateb i'r newid yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Sut y cyfrifir eich pensiwn

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae'r pensiwn yn cronni bob blwyddyn a sut y cymhwysir y cynnydd blyneddol. Ar ddiwedd y tabl, dangosir cyfanswm y pensiwn y byddwch wedi'i gronni erbyn diwedd y pedair blynedd, gan gynnwys y cynnydd blyneddol.

Blywyddyn	Cyflog	Pensiwn ar ddechrau'r flwyddyn	Pensiwn a gronnydd yn ystod y flwyddyn	Cynnydd y pensiwn	Pensiwn wedi l ailbrisio ar ddiwedd y flwyddyn
2026-27	£79,817	£0	£1,596	£32	£1,628
2027-28	£81,413	£1,628	£1,628	£65	£3,321
2028-29	£83,042	£3,321	£1,661	£100	£5,082
2029-30	£84,702	£5,082	£1,694	£136	£6,912
Cyfanswm pensiwn CARE ar diwedd y pedair blynedd = £6,912 y flwyddyn					

Mae'r enghraifft uchod yn tybio cynnydd blyneddol o 2% mewn cyflogau ac y bydd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn cynyddu 2% ym mhob blwyddyn. Byddai swm gwirioneddol y pensiwn a oedd wedi'i gronni ar ddiwedd y cyfnod yn adlewyrchu'r cyflog gwirioneddol a enillwyd bob blwyddyn (gan gynnwys unrhyw gyflog fel Deiliad Swydd a allai fod yn daladwy) a chyfradd wirioneddol yr ailbrisio a ddefnyddir bob blwyddyn.

Cyfraniadau

Caiff y gost o ddarparu buddion o'r Cynllun ei rhannu rhwng Comisiwn y Senedd ac aelodau'r Cynllun.

Fel aelod o'r Cynllun, mae'n ofynnol i chi dalu cyfraniad o'ch cyflog; mae'r Senedd yn gwneud cyfraniad 'Cyflogwr'. Caiff cyfraddau'r cyfraniadau hyn eu hadolygu o bryd i'w gilydd, fel arfer yn dilyn yr adolygiad o'r Gronfa a gynhelir bob tair blynedd o'r Cynllun gan Actiwari'r Cynllun.

Ar hyn o bryd, mae'r aelodau yn cyfrannu 10.5 y cant o'u cyflog i'r Cynllun.

Mae cyfraniadau i'r Cynllun ar hyn o bryd yn destun gostyngiad treth llawn ar eich cyfradd uchaf o dreth incwm hyd at 75 oed. Byddwch yn cael y gostyngiad treth hwn yn eich cyflog yn awtomatig.

Os ydych yn Ddeiliad Swydd, byddwch yn talu cyfraniadau aelod ar eich cyflog fel Aelod o'r Senedd a'ch cyflog fel Deiliad Swydd.

Gadael y Cynllun

Os byddwch yn gadael y Cynllun cyn yr Isafswm Oedran Ymddeol, mae gennych ddau opsiwn i ddewis o'u plith:

Opsiwn 1:

Gallwch adael y pensiwn yr ydych wedi'i gronni yn y Cynllun. Gelwir hwn yn bensiwn gohiriedig. Bydd yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chwyddiant (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar hyn o bryd) hyd nes y byddwch yn penderfynu dechrau cael arian ohono.

Mae pensiwn gohiriedig yn daladwy heb ei leihau o Oedran Ymddeol Arferol y Cynllun ymlaen. Fodd bynnag, gellir ei dalu'n gynnar, o 55 mlwydd oed ymlaen ar hyn o bryd, ac yna byddai'n cael ei ostwng ar gyfer taliad cynnar. Bydd yr isafswm oedran pensiwn yn cynyddu i 57 oed o 6 Ebrill 2028 ymlaen.

Gellir talu eich pensiwn yn gynt os ydych yn dioddef o afiechyd. Pe byddech yn marw cyn cael y pensiwn, bydd y buddion a ddisgrifir ar dudalen 17 yn daladwy.

Opsiwn 2:

Gallwch drosglwyddo gwerth eich pensiwn i gynllun pensiwn cymeradwy arall. Caiff gwerth trosglwyddo eich pensiwn mewn arian parod ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau a ddarperir gan actiwari'r Cynllun.

Efallai y bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi cael cyngor ariannol annibynnol cyn dewis yr opsiwn hwn.

Buddion Ymddeol

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn cael pensiwn blynyddol. Uchafswm y pensiwn sydd ar gael pan fyddwch yn cyrraedd yr Oedran Ymddeol Arferol yw dwy ran o dair o'ch Cyflog Terfynol.

Cyfandaliad ymddeol

Ar hyn o bryd, gallwch ddewis cyfnewid rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad ymddeol sy'n ddi-dreth ar hyn o bryd, yn amodol ar rai terfynau, a chael llai o bensiwn o ganlyniad. Er mwyn dewis yr opsiwn hwn, mae'n rhaid ichi roi rhybudd ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr cyn i randaliad cyntaf eich pensiwn gael ei dalu.

Mae uchafswm y cyfandaliad di-dreth a ganiateir yn cyfateb i oddeutu 25 y cant o werth cyfalaf eich hawl pensiwn blynyddol. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyfyngu ar faint o arian di-dreth y gellir ei gymryd. Gelwir y swm hwn yn Lwfans Cyfandaliad.

Mae rhagor o wybodaeth am y Lwfans Cyfandaliad ar dudalennau 13-14.

Oedran Ymddeol Arferol

Mae'r oedran ymddeol arferol, sef yr oed y gallwch gymryd eich holl bensiwn heb ostyngiad ar gyfer taliad cynnar, yn gysylltiedig ag oedran pensiwn y wladwriaeth (neu 65 mlwydd oed, pa un bynnag sydd uchaf), a bydd yn cynyddu os bydd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu.

Ymddeoliad cynnar

Gallwch wneud cais i'r Ymddiriedolwyr er mwyn i'ch pensiwn gael ei dalu'n gynnar ar yr amod:

- eich bod wedi cyrraedd Isafswm yr Oedran Pensiwn Arferol, sef 55 oed ar hyn o bryd; ac
- nad ydych bellach yn Aelod o'r Senedd.

Os byddwch yn cymryd eich pensiwn yn gynnar, bydd yn cael ei ostwng ar gyfer taliad cynnar oherwydd y bydd yn cael ei dalu dros gyfnod hwy o amser. Bydd maint y gostyngiad yn dibynnu ar yr oedran y byddwch yn cymryd eich pensiwn a'ch Oedran Ymddeol Arferol. Y cynharaf y byddwch yn cymryd eich pensiwn, y mwyaf y bydd yn gostwng oherwydd y taliad cynnar.

Lwfans Cyfandaliad

Y Lwfans Cyfandaliad yw'r uchafswm arian parod y gallwch ei dderbyn fel cyfandaliad o'ch holl drefniadau pensiwn (gweithle neu bersonol) yn ystod eich oes heb dalu treth ychwanegol.

I'r rhan fwyaf o aelodau, y Lwfans Cyfandaliad yw £268,275. Os ydych chi wedi derbyn buddion o drefniant pensiwn yn flaenorol, mae'n debygol y byddwch chi eisoes wedi defnyddio rhywfaint o'r lwfans hwn. Felly, pennir y swm rydych chi wedi'i ddefnyddio (ac felly'r swm sydd gennych chi ar ôl) fel a ganlyn:

a) Buddion pensiwn a gymerwyd ar ôl 5 Ebrill 2024 – bydd pob cyfandaliad arian parod di-dreth a gymerwyd o'r dyddiad hwn yn cyfrif yn uniongyrchol tuag at swm y Lwfans Cyfandaliad rydych chi'n ei ddefnyddio.

b) Buddion pensiwn a gymerwyd cyn 6 Ebrill 2024 – oni bai eich bod yn ein hysbysu fel arall, byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi cymryd yr uchafswm o 25% o werth eich hawl i bensiwn yn flaenorol fel cyfandaliad arian parod di-dreth a bydd

hyn yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo eich Lwfans
Cyfandaliad sy'n weddill.

Os ydych chi'n credu y gallech gael eich cyfyngu
gan y terfyn Lwfans Cyfandaliad ac nad yw'r dull a
nodir (b) yn adlewyrchiad cywir o'r swm o arian
parod di-dreth rydych chi wedi'i gymryd yn
flaenorol, gallwch wneud cais am dystysgrif swm di-
dreth Trosiannol. Gall hyn wedyn ganiatáu ichi
gymryd swm uwch o arian parod di-dreth o 6 Ebrill
2024.

Cyfandaliad Cychwyn Pensiwn Sydd Dros Ben

Os oes angen cyfyngu ar eich cyfandaliad arian
parod di-dreth gan nad oes gennych ddigon o
Lwfans Cyfandaliad ar ôl, efallai y bydd gennych yr
opsiwn o hyd i dderbyn swm arian parod uwch.
Bydd unrhyw swm a dderbynnir dros ac uwchlaw
terfyn y Lwfans Cyfandaliad yn destun treth incwm
ar eich cyfradd ymylol

Ymddeol oherwydd salwch

Er mwyn cael buddion ymddeol ar sail afiechyd, byddai'n rhaid bodloni'r Ymddiriedolwyr eich bod wedi'ch rhwystro rhag ymgymryd â'ch dyletswyddau'n ddigonol fel Aelod o'r Senedd oherwydd afiechyd parhaol. Os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon, ar ôl ystyried cyngor meddygol, eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer pensiwn afiechyd fel y'u nodir yn Rheolau'r Cynllun, byddwch yn cael pensiwn ar unwaith yn seiliedig ar bensiwn afiechyd haen 1 neu haen 2.

Mae pensiwn haen 1 yn daladwy os yw'r dystiolaeth feddygol yn dangos nad yw unigolyn wedi'i rwystro rhag ymgymryd â gwaith cyflogedig arall, ond na all ymgymryd yn ddigonol â'i ddyletswyddau fel Aelod o'r Senedd, a hynny'n barhaol. Y pensiwn afiechyd haen 1 sy'n daladwy yw'r buddion y byddwch wedi'u cronni pan fyddwch yn ymddeol heb unrhyw ostyngiad oherwydd talid cynnar.

Mae pensiwn haen 2 yn daladwy os yw'r dystiolaeth feddygol yn dangos bod unigolyn wedi'i rwystro rhag ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig arall ac

na all ymgymryd yn ddigonol â'i ddyletswyddau fel
Aelod o'r Senedd, a hynny'n barhaol.

Y pensiwn afiechyd haen 2 sy'n daladwy yw'r
buddion y byddwch wedi'u cronni pan fyddwch yn
ymddeol gydag ychwanegiad fel petaech wedi aros
yn aelod gweithredol o'r Cynllun hyd nes yr Oedran
Ymddeol Arferol (yn ddarostyngedig i'r terfyn o
ddwy ran o dair).

Marw yn y swydd Cyfandaliad arian parod

Pe byddech yn marw yn y swydd fel aelod cyfranogol, gall yr Ymddiriedolwyr dalu cyfandaliad sy'n cyfateb i ddwywaith eich cyflog (gan gynnwys eich cyflog fel Deiliad Swydd pe byddech yn Ddeiliad Swydd ar adeg eich marwolaeth), neu ad-daliad o'ch cyfraniadau gyda llog os yw'n uwch. Byddai hyn yn daladwy i'r buddiolwr neu'r buddiolwyr a enwebwyd gennych.

Cewch enwebu unigolyn, unigolion, sefydliad neu ymddiriedolaeth. Os nad oes enwebiad dilys, byddai'r cyfandaliad marwolaeth yn cael ei thalu i'ch ystâd. Sylwer y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried eich enwebiad ond nad ydynt wedi ymrwymo'n gyfreithiol iddo

Mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu o dudalen Pensiwn yr Aelodau ar y fewnwyd neu mae copïau hefyd ar gael gan y Tîm Pensiynau. Mae'n bwysig eich bod yn adolygu'ch enwebiad yn rheolaidd ac yn ei ddiweddarau os bydd eich amgylchiadau personol yn newid.

Marw yn y swydd Pensiynau dibynnyddion

Os byddwch yn marw yn y swydd fel aelod cyfranogol a bod gennych Briod, Partner Sifil neu Bartner sy'n fyw (boed o'r un rhyw neu'r rhyw arall), bydd Pensiwn Dibynnydd sy'n Oedolyn sydd wedi goroesi yn daladwy.

Mae Partner yn golygu person o'r naill ryw neu'r llall:

- a oedd yn cyd-fyw â chi ar ddyddiad eich marwolaeth ac a oedd wedi cyd-fyw â chi am o leiaf ddeuddeg mis,
- a oedd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, naill ai'n ddibynnol arnoch yn ariannol neu'n rhyngddibynnol â chi am o leiaf ddeuddeg mis.

Mae modd lawrlwytho ffurflen i nodi pwy yr ydych am ei enwebu i gael y budd hwn o dudalen pensiwn yr Aelodau ar y fewnwyd.

Ar gyfer y tri mis cyntaf ar ôl marwolaeth, bydd cyfanswm y Pensiwn Dibynnydd sy'n Oedolyn sydd wedi goroesi ac unrhyw Bensiynau Plant sy'n daladwy yn gyfwerth â chyflog yr Aelod o'r Senedd o

dan sylw. Ar ôl diwedd y cyfnod hwn o dri mis, byddai'r Pensiwn Dibynnydd sy'n Oedolyn sydd wedi goroesi yn cyfateb i hanner y pensiwn CARE y byddech wedi'i gronni pe baech wedi aros yn y Cynllun tan yr Oedran Ymddeol Arferol.

Mae pensiwn plentyn hefyd yn daladwy er budd unrhyw Blentyn Perthnasol sydd o dan 17 oed, neu sydd o dan 23 oed ac mewn addysg amser llawn neu'n cael hyfforddiant amser llawn.

Bydd pensiwn y plentyn yn gyfwerth â:

- lle bo un Plentyn Perthnasol, swm sy'n cyfateb i chwarter eich pensiwn (gydag ychwanegiad fel y disgrifir uchod)neu,
- lle bo mwy nag un Plentyn Perthnasol, tair rhan o wyth o'ch pensiwn (gydag ychwanegiad fel y disgrifir uchod).

Gall pensiynau plant gael eu cynyddu os nad oes Dibynnydd sy'n Oedolyn sydd wedi goroesi.

Marwolaeth ar ôl ymddeol

Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Pensiwn Dibynnydd sy'n Oedolyn sy'n Goroesi yn daladwy ar yr un gyfradd â'r pensiwn a oedd yn daladwy i chi yn union cyn eich marwolaeth am y tri mis cyntaf.

Dilynir hyn gan Bensiwn Dibynnydd sy'n Oedolyn sydd wedi goroesi sydd gyfwerth â hanner eich hawl pensiwn CARE ar ddyddiad eich marwolaeth (yn seiliedig ar eich pensiwn llawn cyn unrhyw swm a gyfnewidiwyd gennych am gyfandaliad di-dreth a chan anwybyddu unrhyw ostyngiad oherwydd taliad cynnar).

Yn ogystal, pe baech yn marw o fewn pum mlynedd ar ôl cael hawl i bensiwn am y tro cyntaf, efallai y bydd buddion pellach yn daladwy. Mae'n bwysig eich bod yn adolygu eich enwebiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eich buddion yn cael eu talu cyn gynted ag y bo modd.

Marwolaeth pan fydd y pensiwn wedi'i ohirio

Yn yr amgylchiadau hyn bydd eich Priod/Partner Sifil/Partner yn cael pensiwn sydd gyfwerth â hanner y pensiwn CARE y byddai gennych hawl iddo pe byddai'n daladwy'n union cyn eich marwolaeth.

Optio allan

Cewch optio allan o'r Cynllun ar unrhyw adeg.

Os ydych yn penderfynu gadael y Cynllun, bydd eich penderfyniad yn dod i rym o ba bynnag ddyddiad y mae'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu yw'r dyddiad ymarferol cynharaf ar ôl iddynt gael eich hysbysiad ysgrifenedig.

Ailymuno yn nes ymlaen

Fel Aelod o'r Senedd sydd wedi dewis optio allan, cewch wneud cais i ailymuno â'r Cynllun os ydych yn cael eich ailethol mewn etholiad. Rhaid rhoi rhybudd i'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig eich bod yn dymuno ailymuno y Cynllun **o fewn tri mis** i ddyddiad eich etholiad. Y dyddiad y byddwch yn ailymuno fydd dyddiad yr etholiad.

Gwybodaeth ychwanegol Y Lwfans Blynyddol

Y Lwfans Blynyddol yw'r swm mwyaf y gall eich pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb fod treth yn daladwy arno. Caiff y Lwfans Blynyddol ei bennu bob blwyddyn gan y Llywodraeth. Yn y flwyddyn dreth 2025/2026 mae'n £60,000. Os yw gwerth eich holl gynilion pensiwn yn cynyddu'n fwy na'r Lwfans Blynyddol, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi dalu treth.

Mae Lwfans Blynyddol yn berthnasol i'r rhai sydd â 'incwm wedi'i addasu' o fwy na £260,000. Mae'n bosibl y bydd y Lwfans Blynyddol yn effeithio ar unrhyw un sydd ag incwm trethadwy o dros £200,000.

Isafswm y lwfans blynyddol wedi'i dapro yn y flwyddyn dreth gyfredol yw £10,000. Mae hyn yn digwydd os yw eich incwm wedi'i addasu dros £360,000.

Diogelu Data

Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwr gadw a phrosesu data sy'n ymwneud â chi at ddibenion cyfreithiol a gweinyddol ac o ran personél a rheoli. Gall hyn gynnwys prosesu unrhyw ddata personol sensitif (fel y'u diffinnir yn Neddf Diogelu Data 2018) ynghylch eich aelodaeth o'r Cynllun, gan gynnwys, fel y bo'n briodol, gwybodaeth am eich iechyd neu eich cyflwr corfforol neu feddyliol ac er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rhwymedigaethau i drydydd parti.

Fe allai'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i drydydd parti sy'n darparu cynhyrchion neu wasanaethau i'r ymddiriedolwyr (e.e. cynghorwyr meddygol, cynghorwyr proffesiynol eraill a gweinyddwyr cyflogres a phensiynau), awdurdodau rheoleiddio, ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn gweinyddu'r Cynllun a sefydlu yswiriant priodol. Gall hyn gynnwys trosglwyddo gwybodaeth o'r fath i unrhyw drydydd parti y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo rhwymedigaethau'r

Ymddiriedolwyr o ran y Cynllun. Cymerir camau priodol i ddiogelu eich data personol.

Aseinio

Ni chaniateir i chi aseinio unrhyw un o'ch buddion. Golyga hyn na allwch drosglwyddo eich hawl i fuddion o'r Cynllun i unrhyw un arall.

Pensiwn y Wladwriaeth

Yn ychwanegol at y pensiwn a gewch o'r Cynllun, byddwch hefyd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth. Ers 6 Ebrill 2016, cyflwynwyd Pensiwn y Wladwriaeth newydd ar gyfer pobl sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar y dyddiad hwn neu ar ei ôl.

Bydd y pensiwn a gewch o'r Wladwriaeth yn cael ei dalu yn ychwanegol at unrhyw pensiwn a gewch gan y Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd.

Mae rhagor o wybodaeth am fuddion y Wladwriaeth, gan gynnwys sut i gael rhagolwg o'ch Pensiwn posibl, ar gael yn **www.gov.uk/state-pension-statement**.

Datgelu gwybodaeth ac anghydfodau

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y modd y mae'r Cynllun yn cael ei weinyddu, yn gyntaf dylech godi'r mater gyda'r Tîm Pensiynau a fydd yn cysylltu â Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr.

Os bydd gennych anghydfod sy'n ymwneud â'r Cynllun a'ch bod wedi methu â'i ddatrys yn anffurfiol, dylech ddilyn y Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau, a fydd ar gael i chi ar gais gan y Tîm Pensiynau.

Os ydych wedi methu â datrys anghydfod o dan y Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau, efallai y byddwch yn dymuno codi'r mater gyda'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau sydd ar gael i gynorthwyo aelodau a buddiolwyr y Cynllun ynghylch unrhyw anawsterau na ellir eu datrys yn fewnol.

Cyfeiriad y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yw
Borough Hall, Cauldwell Street, Bedford, MK42 9AB,
telephone 01159 659570.

Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, gellir ei gyfeirio at yr Ombwdsmon Pensiynau, sy'n gallu ymchwilio i unrhyw gŵyn o ran ffaith neu gyfraith ynghylch cynllun pensiwn galwedigaethol a gwneud penderfyniad arni.

Cyfeiriad yr Ombwdsmon Pensiynau yw 10 South Colonnade, Canary Wharf E14 4PU (Ffôn: 0800 917 4487.)

Sut i gael rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch,
cysylltwch â ni:

Donna Davies, Donna.Davies@senedd.cymru
0300 200 6523.

Liz Calder, Liz.Calder@senedd.cymru
0300 200 6528

Adam Cottrell Adam.Cottrell@senedd.cymru
0300 200 7390

Fel arall, ewch i dudalen pensïynau'r Aelodau ar y
fewnrwyd.